**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ymchwiliad byr y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar hawliau plant yng Nghymru**

Yr wyf yn falch o gael y cyfle i ymateb i ymchwiliad byr y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar hawliau plant yng Nghymru.

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), yr wyf yn ymchwilio i gwynion a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddiaeth neu fethiant gwasanaeth gan gorff o fewn fy awdurdodaeth, sydd yn ei hanfod yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned);
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion);
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai) a
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrff noddedig.

Yr wyf hefyd yn gallu ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol ac, o dan amgylchiadau penodol, agweddau o ofal iechyd a ariennir yn breifat.

Mae fy awdurdod i ystyried materion sy'n ymwneud ag addysg wedi ei ddiffinio yn Atodlen 2 & 3 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Nid oes gennyf bŵer i ystyried cwynion ynghylch ysgolion neu gyrff llywodraethu yng Nghymru. Rwyf ond yn gallu ystyried cwynion ynghylch ymwneud gan awdurdod addysg lleol â mater; neu ynghylch apeliadau derbyn a gwahardd o'r ysgol. Golyga hyn na all plant yng Nghymru cwyno i'm swyddfa ynghylch materion mewn perthynas ag ysgolion.

## Cyd-destun

Nid wyf mewn sefyllfa i asesu effaith gyffredinol Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ar lunio polisïau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gallaf gyfrannu at yr ymchwiliad gan nodi rhai tueddiadau a themâu cyffredinol yn fy ngwaith achos ers 2011 mewn perthynas â phlant a phobl Ifanc.

## Llwyth achosion

Mae'r data am fy ngwaith achos yn fy ngalluogi i adnabod nifer y cwynion sy'n

gysylltiedig â gwasanaethau mewn dwy sector sy'n arbennig o berthnasol i blant a phobl ifanc: gwasanaethau cymdeithasol plant ac addysg.

Rhwng 2011/12 a 2018/19, ymdriniais â 764 cŵyn ynghylch gwasanaethau cymdeithasol plant. Yn y cyfnod hwnnw, derbyniais y gyfanswm uchaf o gwynion o'r fath - 117 - yn 2018/19. Mae hyn yn awgrymu y bu cynydd cyffredinol yn y nifer o gwynion fel hyn ers 2011.

Ers 2011/12, rwyf hefyd wedi ymdrin â 576 cwyn ynghylch addysg - 72 y flwyddyn ar gyfartaledd. Yn 2018/19, derbyniais 74 cwyn o'r fath. Er bod hyn yn awgrymu nad oedd cynnydd yn nifer o gwynion sy'n ymwneud ag addysg ers 2011, mae'n dangos hefyd na fu unrhyw welliant amlwg chwaith.

Mae'n bwysig tanlinellu mai cyfran fechan iawn o'm holl lwyth cwynion yw'r cwynion ynghylch gwasanaethau cymdeithasol plant ac addysg. Yn 2018/19, roedd y cwynion hyn yn cyfateb â 5% a 3% o'r holl gwynion a ymdriniais â hwy. I'r cyferbyniad, roedd 41% o'r cwynion a dderbyniodd fy swyddfa yn y flwyddyn honno'n ymwneud ag iechyd. Nid yw fy system rheoli gwaith achos presennol yn fy ngalluogi i gadarnhau'n fanwl gywir pa ganran o'r achosion hyn sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Fodd bynnag, bydd yr adran isod yn amlygu sawl enghraifft unigol o achosion o'r fath.

**Themau'r gwaith achos**

Yn ogystal â'r dystiolaeth uchod, hoffwn dynnu sylw hefyd at sawl enghraifft o achos unigol sy'n cyfleu straeon y bobl go iawn y tu ôl i ystadegau cwynion. Mae'r achosion hyn yn amlygu enghreifftiau lle mae plant a phobl ifanc yng Nghymru yn parhau i gael eu heffeithio gan gamweinyddu a methiant yn y gwasanaeth gan gyrff cyhoeddus.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – 201503185

Roedd Mr N yn blentyn oedd yn derbyn gofal gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac wedi cael ei leoli â'i ofalwyr maeth blaenorol Mr a Mrs A pan oedd yn blentyn bach. Roedd y lleoliad wedi para am lawer o flynyddoedd ond chwalodd yn 2014. Cysylltodd Mr N â'r Cyngor i gael gwybodaeth bellach am gynilion a wnaeth Mr a Mrs A ar ei ran. Fel rhiant corfforaethol i blentyn sy'n derbyn gofal, mae dyletswydd ar y cyngor i sicrhau bod cynilion a wneir ar ran y plentyn neu'r plant sy'n derbyn gofal yn cael eu goruchwylio a'u monitro'n iawn. Fodd bynnag, canfu fy ymchwiliad fod y Cyngor wedi monitro cynilion Mr N yn anghyson ac annigonol; a bod rhai o'i gynilion wedi eu defnyddio heb ymgynghori ag ef. Ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddais adroddiad diddordeb cyhoeddus ar yr achos hwn, gyda chyfres o argymhellion i'r Cyngor i weithredu arnynt. Roedd y rhain yn cynnwys ymddiheuriad ac iawndal i Mr N, yn ogystal â chamau i adolygu prosesau'r Cyngor mewn perthynas â chynilion plant sy'n derbyn gofal.

Cyngor Sir Ddinbych - 201701203

Cwynodd Mrs X fod y Cyngor, rhwng Medi 2015 a Medi 2016, wedi methu ag ystyried cynnal asesiad o anghenion addysgol arbennig ("AAA") ei phlentyn, B,

na’i hysbysu bod modd iddi wneud cais am asesiad o AAA. Cwynodd Mrs X hefyd nad oedd y Cyngor wedi cwblhau asesiad o AAA B o fewn cyfnod o bum wythnos, yn Ebrill 2017, a bod ei benderfyniad i beidio â rhoi datganiad ar gyfer B ym mis Gorffennaf 2017 yn wahaniaethol. Ymysg canfyddiadau eraill, cadarnheais y gŵyn gan Mrs X y dylai asesiad fod wedi’i gyflawni o fewn pum wythnos ac nad oedd hyn wedi digwydd. Nid wyf yn gallu penderfynu ar gwynion am wahaniaethu; mae hynny’n fater i’r llysoedd. Fodd bynnag, awgrymais y dylai’r Cyngor ystyried myfyrio ar yr achos hwn a’r iaith a ddefnyddiodd yn ei ohebiaeth â Mrs X. Cytunodd y Cyngor i ymddiheuro i Mrs X a thalu iawndal o £250 iddi am y diffygion a nodwyd.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda & Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro – 201701479 & 201702267

Cwynodd Mr B fod ei fab C (oedd yn 11 mlwydd oed) wedi aros am ddwy flynedd a hanner i gael llawdriniaeth bediatrig frys (llawdriniaeth i dynnu aren). Dywedodd Mr B fod yr aros hwn yn ddiangen a’i fod wedi cael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd C. Yn ystod yr amser hwnnw roedd C yn dioddef heintiadau’n aml, ac yn gorfod eu trin â gwrthfiotigau, ac roedd rhaid gorchuddio clwyf agored ar ei ochr dair gwaith yr wythnos. Nid oedd C wedi gallu gwneud y pethau yr oedd yn mwynhau eu gwneud gyda'i ffrindiau, megis chwarae pêl-droed neu fynd i nofio gan nad oedd yn gallu gwneud unrhyw weithgareddau cyffwrdd. Roedd hyn yn peri straen a gofid i C. Roedd yna dystiolaeth bod C wedi methu â fynnu yn y cyfnod hwn. Canfum fod yr oediad hwn yn annerbyniol; a bod y ddau Fwrdd Iechyd dan sylw wedi gweithredu’n gamweinyddol wrth ddeilio gyda Mr C fel claf. Dywedais na ellid bychanu effaith yr oediad cyn trin y cyflwr gwanhaol hwn, na allai wella heb lawdriniaeth, a’i bod yn bosibl bod hyn yn gyfystyr â throsedd yn erbyn hawliau dynol C. Derbyniodd y ddau Fwrdd Iechyd ganfyddiadau’r adroddiad, gan gydnabod eu rhan ym methiannau’r achos.

**Sylwadau i gloi**

Hyderaf y byddwch yn gweld fy sylwadau yn ddefnyddiol. Os dymunwch drafod unrhyw un o’r pwyntiau a wneuthum croeso i chi gysylltu ag Ania Rolewska, Pennaeth Polisi (ania.rolewska@ombwdsmon.cymru).



**Nick Bennett**
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**Medi 2019**
*********************************************************************************